



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Diweddariad: Gweithredu Argymhellion o Uwch Gŵyn Heddlu – Rhannu Data Heddlu ar gyfer Dibenion Mewnfudo

Ysgrifennaf atoch i roi diweddariad ichi, yn unol â'r cais gan AHGTAEM, Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu a'r Coleg Plismona.

Yn fy ymateb ffurfiol dyddiedig 15 Ionawr 2021, dywedais:

"Er nad yw Heddlu Dyfed-Powys yn rhannu manylion o'r fath, yr ydym yn cydnabod yr angen i gadarnhau'r sefyllfa hon mewn polisi. Cefnogi'r bobl fwyaf agored o fewn ein cymuned yw'n prif ffocws o hyd. Drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae gan Heddlu Dyfed-Powys lwybrau cryf i wasanaethau cymorth arbenigol wedi'u comisiynu ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Cefnogi'r hyn drwy lywodraethu grŵp ymchwiliadau'r heddlu a phennaeth cyfiawnder troseddol strategol. Yr ydym yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau gwych sefydliadau megis BAWSO (Cymdeithas Menywod Du yn Camu Allan) er mwyn gwella hyder a ffydd yn y cymorth a gynigir i gymunedau mewnfudwyr a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd cynnydd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn eistedd gyda Chanolfan Fregusrwydd yr Heddlu ac yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Bregusrwydd Strategol. Byddaf yn parhau i graffu ar gynnydd o ran yr argymhellion hyn drwy'r fforymau priodol"

Ers hynny, rwyf wedi derbyn diweddariad ffurfiol ar yr argymhellion o fewn yr adroddiad gan Arweinydd yr Heddlu ar Fregusrwydd, y Ditectif Brif Arolygydd Richard Yelland. Isod, yr wyf wedi cynnwys y detholiad o'r ymateb ffurfiol hwnnw sydd wedi fy modloni bod Heddlu Dyfed-Powys wedi mynd i'r afael yn llawn â'r pryderon a fynegwyd, ac yn parhau i wneud hynny:

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r argymhellion a'r sail dystiolaeth wedi'u hystyried ar lefel genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at y PG Martin Hewitt, Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, yn ysgrifennu at Susan Wilcox, yr arweinydd ar gyfer cwynion uwch o fewn AHGTAEM. Mae'r llythyr dyddiedig 28 Mai 2021 yn nodi pryderon mewn perthynas â phob un o'r argymhellion.

Mae'r pryderon hynny wedi'u hystyried, ynghyd â'r adroddiad gwreiddiol a'r gweithdrefnau a pholisïau unigol o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Isod, rwyf wedi nodi ymateb ar y cyd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a sefyllfa'r heddlu mewn perthynas â phob un o'r argymhellion.

Argymhelliad 1 – Fel mesur dros dro, yn amodol ar ganlyniad argymhelliad 2, lle mae gan swyddogion bryderon neu amheuron am statws mewnfudo dioddefydd yn unig, argymhellwn eu bod yn stopio rhannu gwybodaeth am ddiodefwyr cam-drin domestig â Gorfodi Mewnfudo yn syth. Yn hytrach, dylai swyddogion heddlu gysylltu'r dioddefydd â thrydydd parti sy'n medru rhoi

cyngor a chymorth, fel y nodir yn argymhelliad 4 (ar greu llwybrau adrodd diogel). Mae hyn yn berthnasol lle mae gan swyddogion heddlu amheuan ynglŷn â statws mewnfudo dioddefydd, nid lle maen nhw wedi gweld trosedd yn cael ei chyflawni. Bydd y Coleg Plismona'n datblygu canllawiau ar gyfer y gwasanaeth heddlu yn syth er mwyn egluro'r agwedd hon o arfer.

Nid yw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n cytuno â'r rhesymwaith a'r asesiad o'r dystiolaeth ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae perygl gwirioneddol y bydd cyfleoedd diogelu a chyfleoedd plismona eraill yn cael eu colli a bydd pobl sy'n agored i niwed yn cael eu rhoi mewn perygl os yw'r argymhelliad hwn yn cael ei sefydlu. Weithiau, mae'n rhaid i'r heddlu weithredu ar ymgyrchoedd ar y cyd â gorfodi mewnfudo i aflonyddu ar droseddwy'r megis masnachwyr mewn pobl, a bydd angen rhannu data dioddefydd fel rhan o'r ymgyrchoedd hynny. Ymddengys nad yw ei ganlyniadau a'i effaith wedi'u hystyried o fewn yr argymhelliad. Cyflwynodd Tŷ'r Arglwyddi ddiwygiad i'r Bil Cam-drin Domestig. Ni dderbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Senedd, fodd bynnag, addawodd y Swyddfa Gartref y byddai'n cynnal adolygiad o'r fframwaith polisi a chyfreithiol sy'n tanategu rhannu data gwybodaeth ac ystyried sefydlu 'mur dân'. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, bydd cod ymarfer rhannu data rhwng yr heddlu a gorfodi mewnfudo'n cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Senedd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i argymhelliad 3.

Gwnaeth Heddlu Dyfed-Powys yr argymhelliad cychwynol ar gyfer polisi'r heddlu. Yn dilyn ystyriaeth a'r asesiad effaith a nodwyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, yr ydym yn fodlon nad yw'r newid hwn i'r polisi'n gam gofynnol. Mae Heddlu Dyfed-Powys dal heb wneud unrhyw gyfeiriadau o'r fath yn unol â'r flaenoriaeth yr ydym yn gosod ar ddiogelu'r dioddefydd yn bennaf.

Argymhelliad 3 – Â'r nod o atal niwed i'r budd cyhoeddus, datblygu protocol diogelu rhwng y Swyddfa Gartref a'r gwasanaeth heddlu i arwain ymatebion i bob tyst a dioddefydd trosedd sy'n fewnfudwr gan y gwasanaeth heddlu, y Swyddfa Gartref ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill fel sy'n berthnasol. Dylai'r protocol adlewyrchu realiti profiadau dioddefwyr a thystion, gan dynnu ar arbenigedd y sefydliadau arbenigol perthnasol ar gyfer cefnogi dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr. Bydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, fel y nodir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig, i ddatblygu'r canllawiau presennol, yn enwedig ynglŷn â diogelu.

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cytuno y bydd yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, fel y nodir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig, i ddatblygu'r canllawiau presennol, yn arbennig mewn perthynas â diogelu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi sefydlu grŵp cyflenwi i sicrhau bod holl agweddau Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cael eu gweithredu o fewn canllawiau'r Ddeddf. Yr ydym yn disgwyl canllawiau ar hyn o bryd ynglŷn â gweithredu cyfran sylweddol o'r Ddeddf sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Mae'r Cynllun Gweithredu Bregusrwydd Cenedlaethol yn nodi cam gweithredu mewn perthynas â deall 'llais y dioddefydd', sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'i grŵp allgymorth lleiafrifoedd newydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n uchafu'r adborth gan gymunedau. Yn ogystal â'r grŵp rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin

Domestig a Thrais Rhywiol, comisiynwyd aelod o BAWSO i wella'r gefnogaeth a'r allgymorth ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y rhai sydd â statws mewnfudo sydd heb ei ddatrys.

Argymhelliad 4 – Gan gyfeirio at argymhelliad 1, ac mewn ymgynghoriad/cydweithrediad â sefydliadau arbenigol lleol neu genedlaethol, dylai prif gwnstabiliaid gymryd camau i sicrhau bod pob tyst a dioddefydd trosedd sy'n fewnfudwr yn cael ei gefnogi'n effeithiol drwy lwybrau adrodd diogel i'r heddlu ac asiantaethau statudol eraill.

Nid yw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n cytuno â'r rhesymwaith a'r dystiolaeth ar gyfer yr argymhelliad hwn. Ymddengys nad yw ei ganlyniadau a'i effaith wedi'u hystyried o fewn yr argymhelliad. Ymddengys fod hyn yn cynnig llwybr adrodd cenedlaethol trydydd parti ar gyfer cymorth mewnfudo, sydd ddim o fewn cylch gorchwyl yr heddlu. Mae hwn yn fater ar gyfer y Swyddfa Gartref mewn perthynas â phobl â statws mewnfudo ansicr ac nid y gwasanaeth heddlu. Pe bai'r Swyddfa Gartref yn creu llwybr o'r fath, byddai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid diogelu i ymdrin ag ysbryd yr argymhelliad drwy fframweithiau llywodraethu sy'n bodoli eisoes. Fel gydag argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn, nid yw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n derbyn y datrysiadau manwl a nodir gan AHGTAEM. Mae hwn yn fater ar gyfer gwneuthurwyr polisi'r Swyddfa Gartref, ac er y parchir barn AHGTAEM, bydd yn cael ei ddatblygu o fewn trafodaethau ar y pryd gyda'r Swyddfa Gartref.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cytuno â sefyllfa Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, fodd bynnag, yr wyf wedi nodi sut yr ydym yn ceisio arbenigedd cenedlaethol i gefnogi'r trefniadau partneriaeth lleol yn yr ymateb i argymhelliad 3.

Argymhelliad 5 - Gan gyfeirio at argymhelliad 1, yn amodol ar y datblygiadau a amlinellir mewn argymhellion eraill, ac mewn ymgynghoriad/cydweithrediad â sefydliadau arbenigol lleol neu genedlaethol, dylai prif gwnstabiliaid a chomisiynwyr heddlu a throseddu gymryd camau, drwy'r sianeli priodol, i hybu hyder tystion a dioddefwyr sy'n fewnfudwyr i adrodd am droseddau wrth yr heddlu drwy lwybrau adrodd diogel, heb ofni rheoli mewnfudo wedi'i flaenoriaethu.

Nid yw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n cytuno â'r rhesymwaith a'r dystiolaeth ar gyfer yr argymhelliad hwn. Ymddengys nad yw ei ganlyniadau a'i effaith wedi'u hystyried o fewn yr argymhelliad. Mae'n aneglur sut mae'r argymhelliad hwn yn wahanol i'r pwyntiau a nodir yn argymhelliad 4. Os yw'r argymhelliad hwn yn bwriadu y dylai Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, gyda chymorth partneriaid lleol, gyfathrebu bod llwybrau adrodd diogel na fydd yn blaenoriaethu statws mewnfudo fel y prif ddiben, mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n fodlon gwneud hynny o fewn y protocol presennol. Yn unol â'r ymateb i argymhelliad 4, nid cyfrifoldeb y Prif Gwnstabiliaid na Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw sefydlu system adrodd trydydd parti ar gyfer pob dioddefydd trosedd sy'n fewnfudwr. Byddwch chi'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â hawliau dioddefwyr o fewn pa rai y bydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n gweithio.

Mae'r camau gweithredu penodol sy'n cael eu cymryd gan Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd ar gyfer adeiladu hyder drwy ymgysylltu wedi'u nodi yn argymhelliad 3.

Er bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cymryd safiad clir mewn perthynas â'r adroddiad hwn, yr wyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys dal wedi cynnal yr asesiadau priodol, ac mae tystiolaeth glir o waith penodol ar gyfer mynd i'r afael â meysydd y mae'n briodol i Heddlu Dyfed-Powys ganolbwyntio arnynt.

Fe'm calonogir gan y gwaith y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymgymryd ag ef gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'i dîm allgymorth grwpiau lleiafrifol newydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n uchafu'r adborth gan gymunedau a bod aelod o BAWSO wedi'i gomisiynu i wella'r gefnogaeth a'r allgymorth ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y rhai sydd â statws mewnfudo sydd heb ei ddatrys.

Mae'n hollbwysig i mi ein bod ni'n deall y rôl y mae Heddlu Dyfed-Powys yn chwarae o ran cefnogi pob dioddefydd, ac rwy'n hyderus bod y gwaith y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei wneud yn bodloni'r gofynion hynny.

Yr eiddoch yn gywir



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd